

PAM OFNI'R GWIR DDUW?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi bod disgwyl i ni, weision Jehofah, ddangos parchedig ofn tuag ato. Eglurwch beth mae'r fath ofn yn ei olygu a'r buddion sy'n deillio o wneud hynny

MAE LLYFR Y PREGETHWYR YN PWYSLEISIO DANGOS PARCHEDIG OFN AT DDUW (5 mun.)

Yn Llyfr y Pregethwr, ceir darlun byw gan y Brenin Solomon o sefyllfa bodau dynol (Preg 1:13, 14; 2:22, 23)

Wedi iddo ddangos gwagedd bywyd, tynnodd sylw at yr unig ffordd o sicrhau gwir lawenydd parhaol (*w97* 2/15 10, 13-18)

Rhaid ofni Duw a chadw ei orchmynion [Darllen Pregethwr 12:13, 14]

Trwy brofiad daeth Solomon i sylweddoli mai'r unig gwrs sy'n dod â hapusrwydd parhaol yw gwneud Jehofah a'i addoli yn ganolbwynt ein bywyd. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i ymdopi â phryderon bywyd

Diffyg ofn Duw a gwrthod parchu egwyddorion da sydd wrth wraidd y dirywiad moesol a'r cynnydd mewn trais ac anghyfraith

Dim ond y sawl sy'n ofni Duw ac yn cadw ei orchmynion fydd yn goroesi awr Duw i farnu (Preg 8:11-13; Dat 14:6, 7; *w95* 10/15 9-10, 12)

OFN DUW A SUT MAE EI FEITHRIN (13 mun.)

Mae ofni Duw yn golygu teimlo arswyd a pharchedig ofn tuag at Jehofah, a bod ag ofn iachusol ei siomi (*w01* 12/1 14-15; *w01* 7/1 5-6; *g98* 1/8 26-7)

Bydd y sawl sy'n ofni Duw yn ceisio iawn ddefnyddio gwybodaeth

Bydd ofn o'r fath yn ei ysgogi i weithredu'n ddoeth, ac i wneud penderfyniadau doeth (Phil 2:12)

Mi fydd yn ofalus rhag gwneud dim all halogi enw da Duw

Dangoswn barchedig ofn at Dduw drwy osgoi "gweithredoedd y cnawd" (Gal 5:19-21)

Cydnabyddwn fod ei ddeddfau er ein lles ni (*w01* 12/1 20)

Cawn amddiffyn rhag peryglon ysbrydol a chorfforol

Mae'r gosb am eu torri nhw er lles inni

Medrwn ddatblygu ofn Duw drwy ganolbwyntio ar bethau ysbrydol

Ewch ati'n ddiwyd bob dydd i ddarllen ac astudio'r Beibl (Jos 1:7, 8)

Ystyriwch lyfrau'r Beibl megis llythyrau gan Dduw; astudiwch nhw a myfyrio ynddyn' nhw o ddifri' ac yn aml

Byddwch yn ddiwyd yn eich llawn ddefnydd o'r cyhoeddiadau a ddarperir gan gyfundrefn Jehofah (*w01* 7/1 11)

Mynychwch y cyfarfodydd Cristnogol a chael rhan ynddyn' nhw

Rhowch eich gwybodaeth Ysgrythurol ar waith, a gwneud yr hyn mae Jehofah ei eisiau yn ddiffael (Ioan 4:34)

Sylweddolwch na fedrwn ni ddim celu dim oddi wrth Dduw, "yr Un yr ydym ni i roi cyfrif iddo" (Heb 4:13; Luc 8:17)

Mae deall fod Jehofah yn gweld y cyfan yn ein hysgogi ni i gadw'i orchmynion (Salm 11:4; Diar 15:3)

Fe all hyn ein hamddiffyn ni rhag dilyn cwrs mynd ar gyfeiliorn

Gan fod Duw yn real inni, mae ei awdurdod yn codi ofn arnom

I egluro: Pan fo unigolion yn sefyll o flaen barnwr dynol, mae rhyw ofn arnynt oherwydd ei safle a'i awdurdod

Nid yn unig oherwydd grym Duw i gosbi drwgweithredwyr mae arnom ofn Duw, ac yn bendant nid oherwydd arswyd tân uffern

Byddai teimlad afiachus felly yn ein digalonni, a chwalu'n gobaith

Gwerthfawrogi caredigrwydd Duw a'i gariad yw achos yr ofn sydd ynom rhag ei siomi (*w95* 3/15 10; *it-1* 818)

Gwybod am rinweddau Jehofah a'i weithredoedd yn y gorffennol ar ein rhan a'r hyn fydd yn ei wneud yn y dyfodol sy'n tanio'n hawydd i'w blesio ac ufuddhau iddo (Iago 1:17)

BUDDION OFN JEHOFAH (10 mun.)

Mae ofn Jehofah yn ein cadw'n ysbrydol fyw

Ffydd yw sail ein hofn, ac mae'n ymwneud â'n cariad at Dduw a'n hymddiried ynddo

Felly, nid oes ofn arnom agosáu at Dduw mewn gweddi (1Ioan 4:18)

Wrth inni weddio'n gyson rydym yn cadw'n agos at Jehofah a themlo'n ddiogel

Mae ofn Duw yn disodli ofn dyn (Salm 112:7; 118:6; *w95* 3/15 19)

Cawn ein hannog i roi Jehofah yn flaenaf, ac i wneud yr hyn sy'n iawn heb ofni barn eraill amdanom

Ni chafodd proffwydi dewr Jehofah ran mewn drwgweithredu, er bod gwneud hynny'n boblogaidd ar y pryd (Iago 5:10)

Ni fydd arnom ofn afiachus marw trwy law dyn (*w95* 3/15 20)

Rhoddodd y proffwydi eu ffydd yng ngallu Jehofah i atgyfodi dyn (Heb 11:32-35)

Wrth gadw'n ymwybodol o allu Duw, a chadw'n ffydd yn yr atgyfodiad, cawn y dewrder i drechu ofni dyn

Bydd ofn Duw yn ein hamddiffyn drwy ein helpu ni i osgoi ymddygiad drwg (*w95 3/15 18*)
Oherwydd fod Duw mor real i Joseff, gwrthododd bechu yn ei erbyn (*Gen 39:9; w01 12/1 22*)
Os yw Duw yn real i ni, fe gawn help i wrthsefyll temtasiwn
Cawn wared ar ofid a diflastod (*Preg 11:10*)

Daw hapusrwydd i'n bywyd wrth ofni Jehofah (*Salm 112:1*)
Bob dydd byddwn yn gwerthfawrogi'r pethau mae Jehofah yn ei wneud drosom
Os cadwn yn ostyngedig o flaen Jehofah a derbyn ei safonau, cawn wobwr bywyd tragwyddol (*Diar 22:4; Preg 8:12, 13*)

CADW GORCHMYNION Y DUW Y MAE EI OFN ARNOM (15 mun.)

Mae ufuddhau i orchmynion Duw yn profi ein bod yn caru Jehofah ac yn ei ofni (*1Ioan 5:3; w01 12/1 16*)
MOESOLDEB: Mae Duw cariad yn cynnig safonau moesol sy'n hyrwyddo'r budd uchaf ar gyfer y rhai sy'n eu derbyn

Cadarnhewch ofn duwiol drwy ddangos eich bod yn casáu drygioni (*Salm 97:10; 1Cor 6:9, 10; Dat 21:8*)

Osgowch oryfed (*Rhuf 13:13; w02 4/15 17*)

Ymwrthodwch ag anfoesoldeb rhywiol (*Actau 15:20, 29; 1Thes 4:3*)

Byddwch yn onest, peidiwch â dwyn na dweud celwydd (*Eff 4:28; Col 3:9; Dat 22:15*)

Gwnewch y newidiadau sydd eu hangen i gydymffurfio â safon gyfiawn Duw (*1Pedr 4:3*)

Mynnwch fyw bywyd glân, a rhoi doethineb dduwiol ar waith (*Iago 3:17*)

NIWTRALIAETH: Cadwch at egwyddorion Eseia 2:2-4; Ioan 18:36

HYFFORDDI PLANT: Rhowch hyfforddiant i blant o gyfnod babandod ymlaen, oherwydd dymuniad Duw yw i'n hieuenctid ei ofni (*Diar 10:27; 22:6*)

Byddwch yn gyson wrth ddisgyblu, gan brofi eich cariad (*Diar 13:1, 24; 22:15*)

Rhowch gyngor theocrataidd Duw ar waith (*Eff 6:4*)

DILYNWCH HEDDWCH: Dylem fod yn ddiolchgar medru cymdeithasu â chyd-gredinwyr sy'n caru heddwch (*Salm 119:63; 133:1*)

Ceisiwch sicrhau perthynas dda â Christnogion eraill (*Rhuf 14:19; 1Thes 5:13*)

Gwnewch eich gorau i fod "mewn heddwch â phawb" (*Rhuf 12:18; Iago 3:18*)

PREGETHWCH NEWYDDION DA'R DEYRNAS: Nid ydym i gadw'r wybodaeth o Dduw i ni'n hunain (*Math 5:14-16; 24:14*)

Mae gofyn inni, yn aml, roi blaenoriaeth i'r amser pregethu, ond gwnawn hyn oherwydd ein bod yn caru Duw ac yn ei ofni (*Heb 13:15*)

Rydym am i eraill ddysgu am sail gobaith bywyd tragwyddol a'r gofynion ar gyfer hynny (*1Tim 4:16b*)

PARHEWCH I BROFI FOD OFN DUW ARNOCH (2 fun.)

Rhowch y lle blaenaf yn eich bywyd i Jehofah

Dysgwch am ei ffyrdd a'i egwyddorion, ac ufuddhau iddo o flaen pawb arall [*Darllen Pregethwr 12:13 eto*]

Er gwaethaf erledigaeth, mynnwch bregethu yn ofn Duw (*Ioan 15:20; 2Tim 3:12*)

Parhewch i ofni Jehofah mewn ffordd iachusol am dragwyddoldeb gyfan

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a bennwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen na gwneud sylwadau ar bob testun)